# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR
# COFNODION CYFARFOD 9fed IONAWR 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth y 9fed o Ionawr yn Neuadd Rhydlewis am 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies | Cyng Evan John Jones |
| | Cyng Maldwyn Lewis | Cyng Mark Davies |
| | Cyng Emyr Wyn Jones | Cyng Rhys Williams |
| | Cyng Llŷr Evans | Cyng Eirian James |

**Ymddiheuriadau** Cyng Owenna Davies; Cyng Roger Davies

**Clerc** Eleanor Colbourne

**1. Derbyn ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Owenna Davies a'r Cyng Roger Davies

**2. Cadarnhau cofnodion**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir gan y Cyng Evan John Jones ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Julie Davies.

**3. Datgan diddordeb**

Ni ddatgeloedd unrhyw gynghorydd ddiddordeb mewn eitemau ar yr agenda.

**4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

- Roedd y clerc wedi anfon ebost at Julian Evans ynglŷn â bocs diffibriliwr Ffostrasol.
- Angen cysylltu gyda Trevor Hyner ynglŷn â edrych ar y bocsys.
- Tro Penrhiwpal – ddim byd wedi ei wneud.
- Rhiw Salem – y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r mater hwn.

**5. Materion y Cynghorydd Sir**

- Sgwâr Salem – lamp a postyn BT wedi diflannu – y Cyngor Sir yn delio gyda'r mater.
- Fydd ffordd Maesllyn yn cael ei ail wneud, felly bydd y ffordd ar gau rhwng y 29ain a'r 31ain o Ionawr 2018.
- Cymraeg yn y gweithle – angen cysylltu gyda Cered am posteri ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael.
- Y Cyngor Sir wedi mabwysiadu Polisi Caethwasiaeth Modern – os oes rhywun yn ymwybodol o gaethwasiaeth modern, rhaid rhoi gwybod yn syth i'r Cyngor Sir.

**6. Gohebiaeth**

- Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyng Mansel Jones yn ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth fel cynghorydd am dros 40 mlynedd. Hefyd penderfynwyd cyflwyno tystysgrif iddo

fel y gwnaethpwyd i'r cynghorwyr blaenorol.  Yn sgîl hyn, roedd angen rhoi hysbyseb yn y bocsys am gynghorydd ychwanegol.

- Derbyniwyd sawl llythyr yn gofyn am nawdd oddi wrth y canlynol
  - Clwb Snwcer Rhydlewis
  - Neuadd Ffostrasol
  - Eglwys St Cynon
  - Capel Twrgwyn
  - Sioe Amaethyddol Dyffryn Teifi.

  Penderfynwyd ei ffeilio tan y byddant yn cael ei trafod ond yn y cyfamser gofyn am fantolen diweddar.Cais am nawdd oddi wrth Clwb Snwcer Rhydlewis
- Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Crynodeb – dosbarthwyd copi i bawb a gofynnwyd i'r clerc i ebostio copi saesneg i'r rhai sydd a ebost.
- Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (dogfen lawn – ddim yn amgaeedig) – gofynnwyd i'r clerc i ebostio copi o'r ddogfen yma i'r rhai sydd a ebost.

**7. <u>Ariannol</u>**

Talwyd y canlynol:-

Treth y clerc - £87.60
Tâl  yClerc - £350.02

Praesept – trafodwyd y praesept.  Roedd y sylfaen treth y cyngor am 2018/19 yn £652.67.  Ar ôl cryn drafod, penderfynwyd gofyn am fwy o braesept am y flwyddyn 2018/19, sef £10,000.  Y flwyddyn nesaf fydd y praesept yn cael ei dalu dair gwaith i'r cyfrif banc.

**8. <u>Adborth Cyflog y Clerc</u>**

Erbyn y cyfarfod nesaf, y clerc i ddod ag oriau gwaith gyda hi a rhestr o'r gwaith mae wedi ei gwneud yn yr amser hyn.  Hefyd mae angen i'r clerc i rhoi costau mewn am bostio, bandeang, papur, teithio a.y.y.b.

**9. <u>Diogelu Data (GDPR)</u>**

Cafwyd arweiniad ynglŷn â'r mater yma gyda'r Cadeirydd.  Fydd diogelu data yn newid ym mis Mai eleni.  Penderfynwyd gofyn i Un Llais Cymru am arweiniad ar GDPR ar gyfer y cyngor cymuned.  Hefyd, fydd angen fod un person yn gyfrifol am hyn o fewn y cyngor cymuned.

**10. <u>Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf</u>**

- Diffibriliwr ar gyfer Brongest a Maesllyn
- Costau ar gyfer y Wefan
- Cyfraith Cynllunio yng Nghymru
- Llythyron Capel Cynon
- Cyfansoddiad

**11. <u>Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

6ed o Chwefror, 2018 yn Neuadd Ffostrasol am 7.30 y.h.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h.